# Symbylu’r nerf sacrol ar gyfer ataliad dŵr cronig idiopathig nad yw'n rhwystrol

Tachwedd 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae triniaeth symbylu’r nerf sacrol ar gyfer ataliad dŵr cronig idiopathig nad yw'n rhwystrol yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

### *Sylwadau eraill gan NICE*

Dywedodd NICE bod cleifion wedi nodi manteision cyson o ganlyniad i'r driniaeth ac wedi disgrifio gwelliannau sylweddol i ansawdd eu bywyd.

## Eich tîm gofal iechyd

Dylai tîm gofal iechyd sy'n brofiadol ym maes rheoli camweithrediad y bledren benderfynu i ba gleifion y dylid cynnig y driniaeth hon. Dim ond mewn canolfan arbenigol y dylid rhoi’r driniaeth, gan dîm gofal iechyd â phrofiad o ddefnyddio triniaeth symbylu’r nerf sacrol.

## Y cyflwr

Ystyr ataliad dŵr cronig idiopathig nad yw'n rhwystrol yw anallu i wagio eich pledren yn llwyr. Gall hyn olygu eich bod yn ei chael hi'n anodd dechrau pasio wrin, neu pan fyddwch yn gwneud hynny, efallai na fyddwch yn gallu gwagio eich pledren yn llwyr. Ystyr ataliad dŵr nad yw'n rhwystrol yw nad oes unrhyw rwystr corfforol i lif yr wrin. Ystyr 'idiopathig' yw nad yw'r achos yn hysbys.

I ddynion, y triniaethau cyntaf fel arfer yw cyffuriau, megis alffa-atalyddion, ac yna llawdriniaeth i ymestyn yr wrethra os nad yw'r cyffuriau'n gweithio. I ferched, fel arfer llawdriniaeth i ymestyn yr wrethra yw'r driniaeth gyntaf. Os

na fydd y triniaethau hyn yn gweithio, efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio symbylu'r nerf sacrol fel opsiwn triniaeth arall.

## Y driniaeth

Mae symbylu'r nerf sacrol yn cynnwys cam gwerthuso yn gyntaf, er mwyn helpu'r claf a'r clinigydd i benderfynu a allai'r therapi hwn fod yn fanteisiol. Defnyddir dwy brif dechneg ar gyfer y gwerthusiad hwn. Mae'r ddwy ohonynt yn cynnwys gosod electrod ar y nerf sacrol neu'n agos ato, o dan anesthetig lleol neu gyffredinol. Mae'r gwifrenni wedi'u cysylltu â dyfais fach, sy'n galluogi'r claf i addasu lefel y symbyliad.

Pan fydd y cam gwerthuso wedi dod i ben, caiff y ddyfais ysgogi ei gosod yn y boch pen-ôl uchaf, pan fydd y claf o dan anesthetig cyffredinol. Gall y claf reoli'r ddyfais gyda rhaglennydd a ddelir â llaw. Y nod yw adfer y gallu i wagio'r bledren yn wirfoddol, a dileu'r angen i ddefnyddio cathetr i wagio'r bledren.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd fod symbylu'r nerf sacrol yn ddigon diogel a'i fod yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG. Roedd yr 17 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 969 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- cynnydd ym maint yr wrin a gaiff ei wagio o'r bledren - roedd cyfanswm yr wrin a oedd yn cael ei wagio bob dydd wedi dyblu ar ôl 6 mis o driniaeth
- lleihad yn nifer y cathetrau bob dydd. Ar ôl 18 mis, nid oedd angen cathetr ar 58% o gleifion a oedd wedi cael triniaeth symbylu'r nerf sacrol.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau'n cynnwys y canlynol:

- poen a haint

- problemau gyda'r ddyfais neu nad yw'r gwifrau yn gweithio au bod yn symud o'u lle.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1730-3